**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

16 Mawrth 2023

Annwyl Elin,

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) - amserlen y gwaith craffu

Diolch am eich llythyr ar 1 Mawrth yn gofyn am farn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am amserlen arfaethedig y gwaith o graffu ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

Trafododd y Pwyllgor yr amserlen arfaethedig yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2023.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1, sef 14 Gorffennaf. O ran dyddiad cau Cyfnod 2, mae'r Pwyllgor yn fodlon mewn egwyddor, gan gydnabod nad yw'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno'n ffurfiol eto ar amserlen y Pwyllgor ar gyfer tymor yr hydref. Ar ôl cytuno ar y dyddiad cau, byddwn yn ysgrifennu atoch eto os byddwn yn rhagweld unrhyw anawsterau â dyddiad cau Cyfnod 2.

I droi at fater ehangach, ond perthnasol, yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2022, ymrwymodd y Prif Weinidog i gyflwyno dau Fil arall yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol: Bil cydsynio seilwaith a Bil diogelwch tomenni glo, ac mae'r ddau ohonynt yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor hwn. Er mwyn cadw at yr ymrwymiad hwn, byddai angen cyflwyno'r Biliau hyn cyn diwedd tymor yr haf. Mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch amseriad y Biliau'n ei gwneud yn anodd cynllunio'n rhaglen waith ar gyfer gweddill tymor yr haf.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ofyn i'r Trefnydd gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Bil cydsynio seilwaith a'r Bil diogelwch tomenni glo cyn diwedd tymor yr haf.

Gan dybio bod y ddau Fil yn cael eu cyflwyno a'u hanfon atom gyda'r gofyniad arferol i gyflwyno adroddiad cyn pen 12 wythnos, byddai'r Pwyllgor yn craffu ar dri Bil yn olynol. Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn ystyried hyn wrth gynnig amserlenni gwaith craffu mewn perthynas â'r Bil cydsynio

seilwaith a'r Bil diogelwch tomenni glo. Byddwn, wrth gwrs, yn hapus i roi barn ar yr amserlenni arfaethedig ar gyfer y Biliau hynny pan fyddant ar gael.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.